

**Edexcel GCE**

# **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu Gymhwysol**

**Uned 9: Cyfathrebiadau a Rhwydweithiau**

Mehefin 2010

**Senario**

Cyfeirnod y Papur

**6959/01**

Dylid dosbarthu'r senario hwn i ymgeiswyr o leiaf dair wythnos waith cyn yr arholiad.

Sylwer: **Nid** oes ffeiliau ymarfer ar gyfer yr arholiad hwn.

Dylai'r senario hwn gael ei ddefnyddio at ddiben paratoi ymgeiswyr ar gyfer yr arholiad. **Ni chaniateir** mynd â'r copi hwn i mewn i'r arholiad. Bydd y wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn y senario yn cael ei chynnwys yn y papur arholiad.

Mae mwy o fanylion i'w cael yn y Cyfarwyddiadau ar gyfer Cynnal Arholiadau (ICE), sydd ar gael o wefan Edexcel ar gyfer y cymhwyster hwn.

**Ni fydd Edexcel yn derbyn unrhyw gais am ystyriaeth arbennig os rhoddir y senario anghywir i ymgeiswyr ar gyfer yr arholiad y maent yn ei sefyll.**

*Trowch y dudalen* ►

**N38462A**

©2010 Edexcel Limited.

1/



**edexcel**   
advancing learning, changing lives

## Gwesty La Koralo Laguno

Mae Gwesty La Koralo Laguno wedi'i leoli ar ynys drofannol (*tropical*) Varma Loko. Mae gan y gwesty 5 seren ac mae'n darparu ar gyfer twristiaid rhyngwladol. Mae'r gwesty wedi'i leoli wrth ymyl lagŵn mawr, bas (*shallow*) ac mae'n arbenigo mewn darparu cyfleusterau ar gyfer chwaraeon dŵr. Sefydlwyd La Koralo Laguno ym 1995 ac ar hyn o bryd mae ar gau er mwyn ei adnewyddu a'i ymestyn. Bydd angen diweddarau system TG y gwesty yr un pryd.


Mae La Koralo Laguno yn cynnwys adeilad dau lawr a deg caban, sydd wedi eu hadeiladu gerllaw ymyl y dŵr. Yn yr adeilad dau lawr, mae 20 ystafell wely ddwbl, tŷ bwyta ac ardal adloniant, a'r ganolfan weinyddu a TG. Mae gan bob caban ddwy ystafell wely ddwbl, ystafell ymolchi, ystafell fyw a chegin.

Bydd yr estyniad i gyfleusterau'r gwesty yn cael ei adeiladu ar ynysoedd artiffisial yn y lagŵn.

Bydd yn cynnwys:

- adeilad newydd, sy'n cynnwys siop, a thŷ bwyta a chyfleusterau adloniant gwell, a bydd yr adeilad wedi ei gysylltu â hen adeilad y gwesty gan bont
- 20 caban newydd. Ni fydd pontydd yn cysylltu'r ynysoedd artiffisial sydd â'r cabanau arnynt.

Mae trefn bresennol y gwesty a'r datblygiadau arfaethedig (*proposed*) yn cael eu dangos ar y llinfap (*sketch map*).



Bydd gwesteion (*guests*) yn gallu defnyddio canŵod, cychod rhwyfo a byrddau hwylio i gyrraedd yr ynysoedd. Bydd gwasanaeth tacsî dŵr ar gael i gludo bagiau a'r gwesteion hynny nad ydynt yn teimlo'n ddigon egniol i symud gan ddefnyddio'u nerth eu hunain.

Ar hyn o bryd, mae'r ganolfan weinyddu a TG ar lawr gwaelod hen adeilad y gwesty. Mae'n ardal gynllun agored, yn mesur 10 metr wrth 20 metr, yn yr adain sydd bellaf i ffwrdd o'r lagŵn. Bydd yn cael ei diweddarau ond bydd yn aros yn yr un man.

Mae rhwydwaith ardal leol (*LAN*) y gwesty yn rhedeg o weinydd NT4. Mae wyth cyfrifiadur personol sy'n cael eu defnyddio gan staff y gwesty. Mae dau beiriant argraffu laser du a gwyn ac un peiriant argraffu chwistrell lliw. Cafodd cysylltiad y gwesty â'r Rhyngrwyd ei ddiweddarau o system ddeialu ffôn i ddysgl lloeren y llynedd. Mae cebl y *LAN* yn un CAT 5 ac mae wedi'i gyfyngu i hen adeilad y gwesty oherwydd roedd rhai o'r hen gabanau y tu hwnt i gyrraedd pellaf cebl Cat 5 pan gawsant eu hadeiladu.

Bydd yr holl lety hen a newydd i westeion yn cael ei gynnwys yn y rhwydwaith newydd ac mae'n debygol y bydd y rhan fwyaf o'r hen offer yn cael ei waredu (*scrapped*).

Mae'r rheolwr project, Viro De Ordoni, wedi eich cyflogi chi i roi cyngor ar waith dylunio ac adeiladu'r system TG newydd. Mae cyllideb gwerth miliynau o bunnoedd gan y project ac mae Viro wedi awgrymu na fydd arian nac adnoddau llafur yn broblem. Hefyd, mae ef wedi dweud wrthoch chi fod yn rhaid i chi ystyried dau gyfyngiad pwysig.

1. **Prinder gweithlu medrus.** Mae llywodraeth Varma Loko wedi penderfynu bod rhaid defnyddio llafur lleol ar gyfer y project. Mae trydanwyr cymwys iawn ar yr ynys ac mae staff rhwydwaith y gwesty ar gael hefyd. Nid oes unrhyw un â phrofiad o unrhyw beth heblaw am gebl copr neu gysylltiadau WiFi syml, felly mae'n rhaid i unrhyw offer rydych chi'n ei ddewis fod yn syml i'w rhoi at ei gilydd a'u gweithredu. Cebl copr a WiFi yw'r datrysiadau (*solutions*) mae Viro yn eu ffafrio ac mae e'n annhebygol o newid ei feddwl am hyn.
2. **Defnyddwyr di-brofiad.** Mae'n rhaid i unrhyw beth sy'n cael ei ddefnyddio gan westai (*guest*) fod yn gadarn (*robust*) ac yn reddfodol (*intuitive*) i'w ddefnyddio, a rhaid i'w olwg fod yn ddeniadol.

**TUDALEN WAG**